Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

## Cynllun Taliadau 2017/18

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Cynllun Taliadau 2017/18 mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2016 a 13 Ionawr 2017. Ystyriodd y Bwrdd ddeunyddiau ategol perthnasol a gwnaethpwyd ymholiadau priodol i'r tîm Gweithredol, yn enwedig i'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Strategaeth, a KPMG (James Ledward) a gafodd ei benodi i roi sicrwydd allanol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol, gall y Bwrdd gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y taliadau yng Nghynllun Taliadau Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Gallwn gadarnhau i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae'r Cynllun Taliadau yn seiliedig arni yn gywir yn gyffredinol o fewn lefelau rhesymol o oddefiant. Mae'r Cynllun Taliadau a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac yn unol â hynny maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried 'Rheolau Cynllun Taliadau' a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) ac 143B Deddf Diwydiant Dŵr 1991 a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2016, rydym o'r farn bod ein taliadau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried rheolau'r Cynllun Taliadau yn gyda'i gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am sut y gwnaiff y taliadau newydd effeithio ar filiau cwsmeriaid ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau o gwsmeriaid, a gall gadarnhau nad oes disgwyl i unrhyw gwsmer weld ei fil yn cynyddu mwy na 5%.

Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r cynllun taliadau.

**Alastair Lyons**
Cadeirydd

Ar ran y Bwrdd
13 Ionawr 2017